**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR ARDAL DWYFOR**

**DWYFOR AREA COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**5.15PM, DYDD LLUN, 18 MAWRTH, 2013**

**5.15PM, MONDAY, 18 MARCH, 2013**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GYFARFOD, FRONDEG, PWLLHELI**
**MEETING ROOM, FRONDEG, PWLLHELI**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**IOAN HUGHES**

**(01286) 679780**

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 11-03-13

**AELODAETH/MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr/Councillors:**

**Stephen W. Churchman**
**Anwen Davies**
**Aled Evans**
**Gweno Glyn**
**Simon Glyn**
**Alwyn Gruffydd**
**E. Selwyn Griffiths**
**Jason Humphreys**
**John Brynmor Hughes**
**Llywarch Bowen Jones**
**Michael Sol Owen**
**Peter Read**
**Liz Saville Roberts**
**W. Gareth Roberts**
**Angela Ann Russell**
**Eirwyn Williams**
**Gruffydd Williams**
**Owain Williams**
**R.H. Wyn Williams**
**Robert J. Wright**

## RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION PWYLLGOR ARDAL DWYFOR**

4a) Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr, 2012 , fel rhai cywir, (copi yma - papur **melyn**).

4b) Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Mawrth, 2013, fel rhai cywir, (copi yma – papur **hufen**)

**5. GWASANAETH CLUDIANT CYHOEDDUS A CHLUDIANT ADDYSG YN ARDAL DWYFOR**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio, (copi yma – papur **gwyn**)

**6. CYNLLUN STRATEGOL Y CYNGOR 2013-2017**

I gynnal sesiwn rhyngweithiol ar Gynllun Strategol y Cyngor

**7. ADOLYGIAD DIGONEDD O WASANAETH HAMDDEN**

I gynnal, ar gais yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach, sesiwn drafod a derbyn barn aelodau ar yr arolygiad a gynhelir gan gwmni arbenigol 'Just Solutions Leisure Consultants.'

(Copi o bapur cefndir yn amgaeedig – papur **llwyd**)

# PWYLLGOR ARDAL DWYFOR 17-12-12

**Yn bresennol:`** Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes, (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr :** Aled Evans, Jason Humphreys, Llywarch Bowen Jones, Michael Sol Owen, Angela Ann Russell, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, R.H. Wyn Williams a Robert J. Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Gareth James, (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) (ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau** : Stephen Churchman, Anwen Davies, Gweno Glyn, Simon Glyn, E. Selwyn Griffiths, Peter Read, Liz Saville Roberts, ac Owain Williams.

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn Gadeirydd Pwyllgor Ardal Dwyfor am y flwyddyn 2012/13**

**2. SALWCH**

Dymunodd y Cadeirydd adferiad llwyr a buan i'r Cynghorydd Peter Read, a oedd wedi dioddef cyfnod o salwch.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. RHAGLEN**

Mynegwyd pryder gan y Cadeirydd gan mai dim ond un eitem oedd ar raglen y cyfarfiod.

Derbyniwyd arweiniad y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu y gellid cynnal trafodaeth anffurfiol ar ddiwedd y cyfarfod ar gyfer ystyried rhaglen waith y Pwyllgor.

Cyfeiriodd aelodau'n benodol at drafferthion llifogydd ym Mhenrhos, a chytunwyd y gellid tynnu sylw Pennaeth y Gwasanaeth a'r Aelod Cabinet priodol at y mater.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2012, fel rhai cywir.

**6. AGENDA WLEDIG**

a) Cyflwynwyd adroddiad 'Arolwg Ynni yn y Gymuned', a ddarparwyd ar gyfer Ynni Llŷn gan Gritten Management.

b) Cyfeiriodd y Cadeirydd at y wybodaeth a gafwyd yn yr adroddiad yn nodi bod cymaint â 38% o holl dai Gwynedd yn dioddef o dlodi tanwydd. Nododd fod hyn yn frawychus ac efallai'n gondemniad ar y Cyngor am ganiatau i'r sefyllfa gyrraedd safon o'r fath.

c) Eglurodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu bod y mater wedi cael ystyriaeth y Pwyllgor Craffu Corfforaethol. Yn sgil hyn gwnaed cais i gael barn Pwyllgorau Ardal gyda'r bwriad o gael eitem graffu i'r hyn mae'r Cyngor yn ei gyflawni yn y maes yma a sut gall y craffwyr gyfrannu at y datblygiadau.

ch) Mynegwyd barn wahanol gan aelodau, a nodwyd :-

- gellid annog trigolion i fanteisio ar gyfleodd i arbed costau tanwydd drwy fanteisio ar gynlluniau insiwleiddio a gwelliannau cyffelyb;
- na fyddai cynlluniau insiwleiddio'n addas ar gyfer pob tŷ, a bod rhai arbenigwyr o'r farn bod cynlluniau o'r fath yn achosi tamprwydd;
- bod modd chwilota am delerau mwy cystadleuol mewn perthynas â chostau trydan;
- gallai ymdrechion i chwilota am gyflenwyr trydan gwahanol greu trafferthion, yn arbennig i'r henoed;
- bod angen ystyried gwir gostau tanwydd amrywiol mewn manylder ac osgoi'r peryg o weld cyfraddau'r aelwydydd sydd yn dioddef tlodi tanwydd yn cynyddu;
- dylid manteisio ar y cyfle i leisio barn parthed Canllawiau Cynllunio Atodol ar dyrbeini gwynt oedd o fewn cyfnod ymgynghorol;
- byddai cymorth syml, megis cynlluniau i gael ffenestri newydd, fod yn llawer llai trafferthus na datblygiadau megis paneli solar;
- bod ardaloedd gwledig, megis Llŷn, yn wynebu costau uwch na mannau eraill oherwydd costau cludo tanwydd;
- bod rhai cynlluniau paneli solar a thyrbeini gwynt yn cael eu datblygu'n breifat a rhai eraill ar gyfer cymunedau a bod angen ystyried a oedd unrhyw wahaniaeth rhyngddynt o ran costau i'r defnyddwyr;
- na ddylid canolbwyntio ar rai ardaloedd gwledig yn unigl;
- dylid ystyried camau allai'r Cyngor ei gymryd ar gyfer hybu corff lleol fyddai'n gweithredu'n gydweithredol;
- byddai'n bosib defnyddio dulliau o hysbysebu, megis drwy'r cylchgrawn 'Newyddion Gwynedd', i annog cymdeithasau i weithio'n gydweithredol er mwyn sicrhau telerau pryniant tanwydd gwell;
- gellid ystyried ardal beilot ar gyfer hyn;
- gallai'r sefyllfa waethygu yn sgil newidiadau mewn perthynas â budd-daliadau;

d) Eglurodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu mai bwriad y Pwyllgor Craffu Corfforaethol oedd ystyried 3 ardal gyferbyniol o fewn y Sir – sef un ardal wledig, un ardal drefol a thrydedd ardal sydd o natur ganolig.

Yn dilyn camau cychwynol, bwriedir cynnal ymchwiliad craffu i'r Agenda Wledig fel y gellir diffinio'n glir beth yw bod yn y dair ardal ac ystyried a yw

polisiau'r Cyngor yn adlewyrchu hynny wrth iddynt gael eu datblygu yn y Cynllun Strategol.

**PENDERFYNWYD datgan cefnogaeth i fwriad y Pwyllgor Craffu Corfforaethol i gynnal Ymchwiliad Craffu i'r Agenda Wledig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 5.15pm a daeth i ben am 6.15pm

# CYFARFOD ARBENNIG O BWYLLGOR ARDAL DWYFOR 01-03-13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes, (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr :**, Anwen Davies, Aled Evans, Gweno Glyn Simon Glyn, E. Selwyn Griffiths, Llywarch Bowen Jones, Peter Read, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Angela Ann Russell, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, R.H. Wyn Williams a Robert J. Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Aled Davies, (Pennaeth Rheoleiddio), Dafyldd P. Lewis, (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Wyn Williams, (Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd), Iwan Evans, (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Eluned Williams, (Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol Adran Addysg), Ceri Hughes, (Swyddog Contractau), Llinos Roberts, (Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol), Bethan Rowlands, (Clydlynydd Cludiant) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau :** Y Cynghorwyr Stephen W. Churchman, Michael Sol Owen, Owain Williams a Jason Humphreys

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. GWASANAETHAU CLUDIANT CYHOEDDUS A CHLUDIANT ADDYSG ARDAL DWYFOR**

a) Gosodwyd y cyd-destun gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Dafydd P. Lewis, ac eglurodd nad oedd y gwaith oedd yn cael ei wneud yn gyfyngedig i Ardal Dwyfor. Drwy ddilyn y drefn o ail gyflwyno tendrau ar gyfer gwasanaethau cludiant ym mhob ardal yn ei thro, bwriedir cael trosolwg ar drefniadau cludiant yng Ngwynedd gyfan.

b) Nodwyd bod newidiadau'n digwydd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Oherwydd hyn ystyrir bod y gwaith, o ran edrych ar y trefniadau cludiant yng Ngwynedd, o werth fel bod gan y Cyngor reolaeth ar yr hyn sy'n digwydd yn y Sir cyn i drafodaethau gael eu cynnal gyda chorff rhanbarthol fydd yn dylanwadu'n y dyfodol.

c) Adroddodd y Pennaeth Rheoleiddio fod y gwaith o edrych ar elfennau cludiant wedi cychwyn cyn belled â phum mlynedd yn ôl. Arweiniodd hyn at y sefyllfa bresennol pryd mae'r broses o ail dendro ar draws y Sir yn cael ei dilyn. Ychwanegwyd bod cryn bwyslais wedi ei roi ar integreiddio gwahanol elfennau o gludiant, gyda'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'r adnoddau sydd ar gael.

ch) Ychwanegwyd bod y newidiadau a wnaed o safbwynt integreiddio darpariaethau cludiant y Cyngor wedi cael eu hasesu'n annibynnol, ac er bod

lle i wella, gwelwyd bod llawer o’r gwaith sydd heb ei wneud mewn rhai awdurdodau, wedi cael ei wneud, neu o leiaf ar y gweill yng Ngwynedd.

d) Ychwanegodd y Pennaeth Rheoleiddio ei fod eisoes wedi adrodd i’r Pwyllgor Archwilio ei fod yn bryderus ynglŷn â threfniadau contractau hanesyddol yng Ngwynedd. Pwysleisiodd ei fod yn cyfeirio at y Sir yn ei chyfanrwydd a chredai fod nifer o gontractau blêr yn bodoli ac na fu proses o ail dendro ers dros 20 mlynedd mewn perthynas â rhai gwasanaethau. .

dd) Pwysleisiodd aelodau mai ystyried cludiant i’r ysgolion oedd pwrpas y cyfarfod ac y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch plant.

e) Mewn ymateb i sylwadau pellach, nododd swyddogion bod y wybodaeth ynglŷn â rhai gwasanaethau sydd heb eu hail dendro ers dros 20 mlynedd yn gysylltiedig yn bennaf â chludiant cyhoeddus a bod cludiant i ysgolion yn cael ei addasu yn ôl y galw. Yn ogystal, nodwyd bod cludiant cyhoeddus a chludiant i ysgolion yn cael eu hintegreiddio lle bo hynny’n briodol er mwyn sicrhau’r gwerth gorau am arian.
Ymhellach, pwysleisiwyd bod adolygiadau’n cael eu gwneud er sicrhau fod pob disgybl sydd â hawl i gludiant addysg yn ei dderbyn.

f) Eglurodd Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd fod tendrau’n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd ar gyfer pecynnau o waith allai gynnwys cludiant cyhoeddus a chludiant addysg. Gallai hyn olygu gwell gwerth am arian. Nodwyd ymhellach y gellir cael gwasanaeth mwy effeithiol a sicrhau arbedion heb dorri ar y gwasanaethau.

g) O safbwynt yr ymgynghori, nodwyd bod swyddogion wedi cyfarfod cynghorwyr a chynrychiolwyr cwmniau bysiau a bod addewid wedi ei roi y byddai canlyniadau tendro yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Ardal cyn i gontractau gael eu gosod.

ng) Cadarnhawyd fod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau wedi bod ac mai’r bwriad yw cychwyn y gwasanaethau wedi’r Pasg. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Ardal ar 18 Mawrth.

h) Mynegwyd cryn anfodlonrwydd gan aelod a nododd bod cam a gymerwyd i ddileu gwasanath bws drwy Garn Fadryn yn profi nad oedd ystyriaeth wedi ei roi i leoliad cartref pob dysgwr mewn perthynas â lleoliad ysgol.

i) Ymhellach, cyfeiriodd at sylwadau a wnaed gan y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn nodi ei fod wedi teithio hyd ffyrdd yn arwain at Ysgol Botwnnog a’i bod yn ymddangos nad oedd y ffyrdd yn addas i ddisgyblion gerdded i’r ysgol. Ychwanegodd yr aelod fod y swyddog wedi datgan y byddai’n mynd mor bell a dweud fod pob disgybl o fewn talgylch Ysgol Botwnnog yn deilwng o gludiant addysg, ac eithrio’r rhai sy’n byw ym Motwnnog ei hun. Pwysleisiodd yr aelod nad oedd wedi derbyn dehongliad clir o’r sylwadau yma.

Mewn ymateb, nododd y swyddog fod y sgwrs rhyngddo a’r aelod wedi ei chynnal mewn perthynas â’r daith rhwng Garn Fadryn ac Ysgol Botwnnog ac mai ei farn gychwynol ef oedd bod rhannau o’r ffordd yn beryglus. Pwysleisiodd ei fod wedi gwneud y sylwadau o safbwynt y ffordd yma yn unig ac nid y cyfan o’r ffyrdd i Ysgol Botwnnog.

l) Tynnodd yr un aelod sylw penodol at bolisiau sy'n bodoli a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddo:-

- na ellir newid dulliau cludiant ysgol yn ystod blwyddyn addysgol oni bai bod argyfwng, megis gwaith ffordd yn gorfodi hynny;
- bod angen adolygu'r drefn gludiant addysg flwyddyn addysgiadol ymlaen llaw;
- bod angen ymgynghori gyda'r ysgolion, rhieni ac hyd yn oed disgyblion fel eu bod hwythau'n gallu cyfrannu i'r adolygiad;
- nad oedd ymgynghori o'r math yma wedi digwydd hyd nes iddo ef ofyn i'r Pennaeth Rheoleiddio gysylltu â'r ysgolion;
- bod unrhyw fwriad i newid trefniant wedi'r Pasg yn golygu y dylai'r Cyngor gwblhau asesiad risg ar y ffordd dan sylw.

m) Gwnaed sylwadau pellach gan sawl aelod yn nodi :-
i) bod disgwyl i rai disgyblion gerdded gryn bellter hyd ffyrdd, sy'n cael eu hystyried yn beryglus, er mwyn cyrraedd y mannau casglu;
ii) bod asesiad risg wedi dangos bod rhai o ffyrdd gwledig Llŷn yn beryglus a'i bod yn amhosib gwahaniaethu rhwng ffyrdd gwledig o'r fath ;
iii) gallai rhai rhieni symud eu plant i dderbyn addysg mewn ysgol wahanol er mwyn osgoi trafferthion cludiant ac y gallai ysgolion gwledig ddioddef yn sgil hyn;
iv) bod rhaid ystyried sefyllfa teuluoedd o safbwynt taliadau cludiant;
v) nad yw'n bosib, ar bob adeg, i ddisgyblion fanteisio ar y cynllun seddau gweigion sy'n rhoi cyfle iddynt dalu am y daith addysgol;
vi) gallai cael llai o fysys yn cario plant i'r ysgolion arwain at greu peryglon gydag ychwaneg o geir ger mynedfeydd i ysgolion.

n) Dywedodd yr Aelod Cabinet, Amgylchedd, mai'r cynghorwyr oedd yn gyfrifol am y polisiau ac y dylid eu newid os nad oeddynt yn dderbyniol. Credai bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r polisiau a bod hyblygrwydd gan y cwmniau i ymateb iddynt.

o) Mewn ymateb, nododd aelod bod y polisi a'r canllawiau cenedlaethol yn datgan bod gan y Cyngor gyfrifoldeb i ddatparu cludiant addysgol am ddim os yw'r ffordd yn beryglus, ac nid oedd am weld hynny'n newid.

r) Ymatebodd y swyddogion yn briodol i'r sylwadau a wnaed, a chadarnhawyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno er ystyriaeth yng nghyfarfod Pwyllgor Ardal Dwyfor ar 18 Mawrth.

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4.05pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARDAL DWYFOR** |
| **DYDDIAD** | **18 MAWRTH, 2013-03** |
| **TEITL** | **GWASANAETH CLUDIANT CYHOEDDUS A CHLUDIANT ADDYSG YN ARDAL DWYFOR** |
| **PWRPAS** | **Darparu'r Cefndir i'r Broses Ail Dendro** |
| **ADRODDIAD GAN** | **ALED DAVIES – PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD W. GARETH ROBERTS** |

1. Mae'r broses o ail-dendro gwasanaethau cludiant Dwyfor yn rhan o raglen ail-dendro ar draws Gwynedd gyfan, gyda Meirionnydd wedi ei gwblhau ac Arfon i dderbyn sylw cyn diwedd y flwyddyn.

2. Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod arbennig ar 1 Mawrth 2013, nid yw'r holl waith dadansoddi ac asesu wedi ei gwblhau erbyn dyddiad paratoi yr adroddiad hwn, ac felly, mae cyfyngiadau ar y wybodaeth y gellir ei ddarparu yn yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ardal Arbennig yn cynnwys y cefndir angenrheidiol ac fe atodir copi ohono fel Atodiad A i'r adroddiad hwn.

3. Gwahoddwyd tendrau ar gyfer darparu cludiant cyhoeddus a chludiant Addysg yn Ardal Dwyfor ar 15 Ionawr 2013. Dychwelwyd y tendrau ar 25ain Chwefror, 2013. Ers hynny, mae staff yr Uned Cludiant Integredig wedi bod yn cyd-weithio gyda staff yr Uned Caffael i ddadansoddi a gwneud asesiad llawn o'r holl gynigion a dderbyniwyd. Yn unol â'r drefn ddisgwyliedig mae'r asesiad yma yn cymryd prisiau a materion ansawdd i ystyriaeth cyn ffurfio argymhelliad o ran cynnig contractau - golyga hynny nad y pris isaf sydd o reidrwydd yn ennill y tendr.

4. Yn unol â'r hyn a'r addewid a wnaed gan yr Aelod Cabinet pan ddarparwyd gwybodaeth i aelodau ardal Dwyfor ar ddechrau'r broses yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Ardal a gynhaliwyd ar 17 Medi 2012, mae'n fwriad cyflwyno adborth ar ganlyniadau'r broses a'r opsiynau trywydd cludiant i'r Pwyllgor Ardal cyn i benderfyniadau terfynol ar gynnig contractau gael eu gwneud.

5. Dylid hefyd cadw mewn cof bod llawer o wybodaeth yn ymwneud a phrosesau tendro yn wybodaeth sydd yn fasnachol sensitif ac felly ni ellir ei gynnwys yn yr adroddiad nac ychwaith adrodd yn llawn arno ar lafar yn y cyfarfod ar 18 Mawrth. Un o'r prif resymau yw na fydd y contractau wedi eu gosod ac felly rhaid cadw prisiau ac enwau cwmnïau ar drywydd bysiau penodol yn gyfrinachol.

6. Y nod yw dechrau gwasanaethau newydd o'r 1af Ebrill, 2013 ymlaen.

7. Fodd bynnag, mae sylw wedi ei gymryd o'r pryderon a nodwyd gan yr aelodau mewn perthynas â darpariaeth cludiant i ddysgwyr ac fe fydd union ddyddiadau dechrau rhai o'r contractau addysg yn dibynnu ar allu'r Cyngor i gytuno contractau gyda darparwyr ac ar raddfa'r newid fydd yn debygol o ddigwydd. Er enghraifft, ni ystyrir bod newid mewn darparwr neu newid o fws i fws mini neu dacsi yn newid sylfaenol yn y ddarpariaeth nag ychwaith newidiadau fydd yn golygu darparu cerbydau llai i gyfarfod a bws mwy ar y prif drywydd cludiant. Rhagwelir y bydd y mwyafrif o'r ddarpariaeth yn disgyn i'r categori lle na fydd newid sylweddol.

8. Unwaith y bydd yr adolygiad o ganlyniadau'r tendrau wedi ei gyflawni, yna bydd ffocws yr uned yn cael ei roi ar baratoi amserlenni ar gyfer y cyhoedd a hysbysu'r ysgolion o unrhyw newidiadau, gan gynnwys paratoi tocynnau bws newydd. Mae angen pwysleisio nad oes newid polisi cludiant addysg yn digwydd fel rhan o'r broses hon

9. Dylai'r Pwyllgor gadw mewn cof mai proses ail-dendro gwasanaethau cludiant yn eu cyfanrwydd sydd dan sylw yma, nid proses ail-dendro bysiau addysg yn unig. Bydd y rhwydwaith cyfan yn cael sylw, gan gynnwys gwasanaethau tacsis a gwasanaethau ar alw, a bydd yn dylanwadu ar y ddarpariaeth derfynol gaiff ei gomisiynu trwy'r broses.

10. Ar hyn o bryd, mae £692,292.05 yn cael ei wario fel cymhorthdal cludiant cyhoeddus yn ardal Dwyfor, £1,213,824.89 am gludiant addysg gyda bws a £491,747.00 i gludo dysgwyr gyda thacsi neu gan rieni. Gan nad yw rhai gwasanaethau yn Nwyfor wedi eu tendro ers dros 20 mlynedd, mae'n anochel fod niferoedd dysgwyr wedi newid. Mewn egwyddor fe ddylid canfod arbedion effeithlonrwydd a darganfod cyfleon i gael gwerth am arian cyhoeddus o'r broses ail-dendro. Mae hyn yn allweddol o ystyried y toriadau mewn grantiau cludiant cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.

11. Mae ail dendro hefyd yn cynnig cyfle i sicrhau bod y gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yn cydymffurfio â rheolau pwrcasu a pholisïau'r Cyngor. Ni ellir datgan i sicrwydd bod hyn wedi bod yn digwydd dan y trefniadau cyfredol.

**Cwestiynau a godwyd gan aelodau**

12. Mae'r prif bryderon a fynegwyd gan aelodau yn ymwneud a chludiant addysg. Ymgeisir i ymateb i rai o'r cwestiynau hynny yn y paragraffau dilynol. Bydd yn fwy priodol ymateb i eraill pan fydd y darlun o ganlyniadau'r broses yn fwy eglur. Hyderaf y gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o'r rhain yn y Pwyllgor ar 18 Mawrth 2013.

13. Cam pwysig yn y broses ail-dendro ar gyfer cludiant addysg oedd edrych ar leoliad cartref pob dysgwr mewn perthynas â lleoliad yr ysgol, a strwythuro'r tendrau o gwmpas y dysgwyr sydd gyda hawl i gael cludiant addysg, sef y rhai sydd mewn:

i) Ysgolion Cynradd- cludiant i ddysgwyr sydd yn byw 2 filltir neu drosodd o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch neu'r ysgol agosaf.
ii) Ysgol Uwchradd- cludiant i ddysgwyr sydd yn byw 3 filltir neu drosodd o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch neu'r ysgol agosaf.
iii) Cludiant Dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau yn unol ag argymhellion y Cyd Bwyllgor Anghenion Addysg Arbennig.

Gwnaethpwyd hyn drwy ddefnyddio cofrestr lawn yr ysgolion, a roddwyd un ai gan yr ysgolion neu drwy system SIMS.

14. Yn gyntaf, rhaid pwysleisio bod cludiant yn cael ei bwrcasu mewn 3 ffurf sef:

i) Bws ysgol pur
ii) Cludiant cyhoeddus
iii) Bysiau mini a thacsis (cerbydau 8 sedd neu lai)

15. Yn achos cludiant o Lithfaen i Ysgol Pentreuchaf, ystyriwyd mai'r dull gorau o ddarparu'r gwasanaeth i ddysgwyr fyddai fesul tocyn gan ddarparwr. Yn anffodus, gwrthodwyd y cynnig gan y darparwr ac felly mae cais am brisiau bws 16 sedd wedi ei gyhoeddi ar ddechrau mis Mawrth, fel rhan o glwstwr o siwrneai yn cynnwys teithiau coleg. Bydd y prisiau a dderbynnir yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses asesu ehangach.

16. Yn achos cludiant o Uwchmynydd i Ysgol Crud y Werin ac Ysgol Botwnnog, roedd tendrau ar gyfer darparu dau dacsi yn cau ar y 4ydd o Fawrth. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r rhai sydd yn byw dros 2 filltir o'r Ysgol Gynradd ac sydd wedi gwneud cais am gludiant a bydd holl blant oed uwchradd sydd yn byw yn ardal Uwchmynydd yn derbyn cludiant trwy un o'r dulliau a nodwyd gyda chysylltiad â gwasanaeth bws 318 yn Aberdaron i Fotwnnog.

17. Yn y Pwyllgor mynegwyd barn gan aelodau na ellir gwahaniaethu rhwng ffyrdd cefn gwlad ym Mhen Llyn a bod pob un ohonynt yn berygl. Rhaid i'r Pwyllgor nodi bod y polisi yn datgan y dylid darparu cludiant pan fo ffordd yn arbennig o beryglus a bod yr asesiad yn cymryd i ystyriaeth fod disgwyl i blant gael eu hebrwng gan oedolyn. Cynhelir yr asesiadau ar sail meini prawf penodol ac ar sail lefelau traffig presennol. Ni ellir asesu'r ffyrdd yma ar sail grŵp a rhaid eu hasesu ar ba mor berygl ydynt yn unigol. I gynorthwyo aelodau i ymateb i gwestiynau a cheisiadau all eu cyrraedd, mae yn fwriad darparu copi o'r canllawiau asesu i bob aelod yn y dyddiau nesaf.

18. O ran contractau de-minimis, mae yn wir dweud eu bod yn ddull neu arf o gaffael gwasanaeth. Fodd bynnag, mae sgôp ynddynt i ddarparu rhannau o wasanaethau yn hytrach na gwasanaethau yn eu cyfanrwydd. Mae'r gorddefnydd o gontractau de-minimis ar hyn o bryd yn un o'r rhesymau pam na all y Cyngor ddatgan i sicrwydd fod gwerth am arian yn y ddarpariaeth cludiant presennol. Mae deddfwriaeth yn datgan na allwn or-ddefnyddio contractau de-minimis. Mae prosesau tendrau yn galluogi cystadleuaeth deg a thryloyw ac yn medru darparu prawf syml a chlir o werth am arian.

19. Rhaid cofio bod trefniadau gan y Cyngor, ble'n bosib, i gymryd mantais o seddi gweigion ar gontractau cludiant addysg pur a ddarperir. Gall dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim manteisio ar y cynllun seddi gweigion unwaith bydd canlyniadau'r broses ail-dendro wedi ei adolygu'n llawn. Fel ag y nodwyd ym mharagraff 7, bydd yr uned yn canolbwyntio ar gyfathrebu a rhannu gwybodaeth gyda rhanddeiliaid ac ymateb i geisiadau Cynllun Seddi Gweigion.

**Y Cyflwyniad i'r Pwyllgor**

20. Bydd y cyflwyniad llafar yn ceisio sicrhau'r pwyllgor bod y trefniadau arfaethedig ar gyfer darparu cludiant i ddysgwyr sydd yn rhai sy'n gymwys i gludiant statudol, yn gadarn ac yn unol â pholisïau a threfniadau'r Cyngor.

21. Bydd ffocws y wybodaeth a gyflwynir ar gludiant cyhoeddus ar unrhyw newidiadau sylfaenol o'r ddarpariaeth bresennol. Mae'n bosibl y bydd newidiadau i amseroedd gwasanaethau ac o bosib i amlder gwasanaethau mewn rhai achosion - ond mae hefyd yn bosib na fydd unrhyw newid i wasanaethau cyfredol. Bydd sylw yn cael ei roi i sicrhau darpariaeth gwasanaeth addas, cynaliadwy sydd yn cynnig gwerth am arian gan gynnig cyfleon teithio addas ar gyfer cyrraedd y gwaith ac addysg.

22. Er na ellir gwarantu hynny ar hyn o bryd, y gobaith yw y bydd canlyniadau'r gwaith asesu yn golygu mai nifer fechan o achosion fydd yn cael sylw manwl yn y drafodaeth.

23. Mae’n bwysig nodi fod ymateb iach wedi ei dderbyn i’r broses tendro a bod y Cyngor wedi derbyn prisiau cystadleuol ac amserlenni wedi eu ffurfio gan y cwmnïau. Mae hyn yn dangos fod y cwmnïau wedi deall yr angen ac yn gallu defnyddio eu hadnoddau i’w llawn botensial.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARBENNIG ARDAL DWYFOR** |
| **DYDDIAD** | **1 Mawrth 2013** |
| **TEITL** | **Gwasanaethau Cludiant Cyhoeddus a Chludiant Addysg Ardal Dwyfor** |
| **PWRPAS** | **Darparu'r Cefndir i'r Broses Ail Dendro** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Aled Davies - Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd** |

1. Gwahoddwyd tendrau ar gyfer darparu cludiant cyhoeddus a chludiant Addysg yn Ardal Dwyfor ar 15 Ionawr 2013. Dychwelwyd y tendrau ar 25ain Chwefror, 2013. Bydd asesiad llawn o'r holl gynigion yn cael ei wneud yn ystod y 3 wythnos nesaf. Mae yn fwriad i gyflwyno gwybodaeth am yr opsiynau trywydd cludiant i'r Pwyllgor Ardal ar 19 Fawrth 2013. Y nod yw dechrau gwasanaethau newydd o fis Ebrill, 2013 ymlaen.

2. Gellir cadarnhad na dderbyniwyd cais gan y cwmnïau cludiant am estyniad i gyfnod y tendr, a bod pob cwestiwn oedd wedi codi ganddynt yn ystod y cyfnod tendro wedi derbyn ymateb gan swyddogion.

3. Gwahoddwyd ceisiadau i gyflwyno gwasanaethau yn dilyn trafodaethau gydag aelodau a gyda'r cwmnïau cludiant. Mae Swyddogion y Gwasanaeth wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd gydag aelodau a hefyd rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor Ardal [17.09.12] i godi ymwybyddiaeth ar dendro cludiant Dwyfor. Cadarnhaf yn ogystal bod Swyddogion wedi ymweld â'r cwmnïau bysiau sawl gwaith i gasglu gwybodaeth am y gwasanaethau presennol ac wedi esbonio'r drefn tendro iddynt. Hefyd, mae cefnogaeth gan Menter a Busnes a Bravo Solutions wedi ei gynnig i'r cwmnïau.

4. Mae £692,292.05 yn cael ei wario fel sybsidi cludiant cyhoeddus yn ardal Dwyfor ar hyn o bryd ac mae'r Cyngor yn gwario £1,213,824.89 am gludo dysgwyr i ysgolion yn Nwyfor gyda bws a £491,747.00 i gludo dysgwyr gyda thacsi a gan y rhieni.

5. Nid yw rhai gwasanaethau yn Nwyfor wedi eu tendro ers dros 20 mlynedd, felly, mae gwir angen ail edrych ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd i sicrhau gwerth am arian. Mae hyn yn hynod bwysig yn enwedig gan fod Llywodraeth Cymru yn parhau i dorri ar grantiau cludiant sydd yn cael eu rhannu gydag awdurdodau lleol ac felly bod yna risgiau o gynnydd costau i'r awdurdodau. Mae ail dendro hefyd yn cynnig cyfle i sicrhau bod y gwasanaethau sydd yn cael ei ddarparu yn cyd-fynd gyda threfniadau a pholisïau'r Cyngor.

6. Mae'r prif bryderon a fynegwyd gan aelodau yn ymwneud a chludiant addysg. Er gwybodaeth, mae copi o ganllawiau cenedlaethol ar Gludiant Addysg, a hefyd polisi Cyngor Gwynedd sydd wedi'u selio ar y canllawiau hyn wedi eu hatodi yn Atodiad A.

7. Cam pwysig oedd wedi ei gymryd wrth baratoi'r wybodaeth tendr ar gyfer cludiant addysg oedd edrych ar leoliad cartref pob un dysgwr mewn perthynas â lleoliad yr ysgol, a strwythuro'r tendrau o gwmpas y dysgwyr sydd gyda hawl am gludiant addysg, sef y rhai sydd yn:

- Ysgolion Cynradd- cludiant i ddysgwyr sydd yn byw 2 filltir neu drosodd o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch neu'r ysgol agosaf.
- Ysgol Uwchradd- cludiant i ddysgwyr sydd yn byw 3 filltir neu drosodd o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch neu'r ysgol agosaf.
- Cludiant Dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau yn unol ag argymhellion y Cyd Bwyllgor Anghenion Addysg Arbennig.

8. Rhaid hefyd cofio bod trefniadau gan y Cyngor i gymeryd mantais o seddi gweigion ar gludiant a ddarperir. Gall dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cludiant fanteisio ar y cynllun seddi gweigion unwaith y byddwn yn ymwybodol o'r hyn sydd yn cael ei gynnig gan y cwmnïau cludiant.

**CYNGOR GWYNEDD**
**ADOLYGIAD DIGONEDD O WASANAETH HAMDDEN**

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried opsiynau strategol a rheolaeth ar gyfer dyfodol y ddarpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau hamdden.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni ei hamcan o welliannau parhaus drwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ac yn dymuno dewis yr opsiynau mwyaf addas ar gyfer cyflawni'r amcan hwn.

Gyda hyn mewn golwg, mae'r Cyngor wedi comisiynu adolygiad digonedd er mwyn ein hysbysu o’r ddarpariaeth bresennol gan gymryd ystyriaeth o gynlluniau gwella, cyfleoedd resymoli a datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Bydd casgliadau’r adolygiad hefyd yn ein hysbysu o'r opsiynau ar gyfer trefniadau rheoli yn y dyfodol er mwyn bwrw ’mlaen â'r agenda gwella.

Bydd yr Adolygiad yn cael ei chynnal gan Howard Tolley a Sara Green o gwmni arbenigol ‘Just Solutions Leisure Consultants’ (www.justolutionsonline.co.uk <http://www.justolutionsonline.co.uk>)

Bydd yr adolygiad a'r opsiynau gwerthuso yn cymryd i ystyriaeth:

- Ymgynghoriadau cymunedol blaenorol, arolygon, adolygiadau strategol a chyfleusterau;
- Unrhyw wybodaeth o gynlluniau gweddilliol perthnasol sy'n ymwneud ac opsiynau/adolygiadau rheolaethol, rhesymoli cyfleusterau a gwelliannau.
- Anghenion cynlluniau a darpariaeth Addysg – gan gynnwys ysgolion 21ain ganrif a chynlluniau trawsnewid ysgolion.
- Polisïau Iechyd a lles ac agendâu pwysig eraill megis ym maes adfywio economaidd;
- Cynlluniau datblygu ar gyfer y dyfodol (gan gynnwys cynlluniau newydd masnachol neu breswyl) a'r dyhead y Cyngor, partneriaid allweddol a darparwyr eraill;
- Perthnasedd a chyfraniad potensial y dyfodol ynghyd a rôl darparwyr chwaraeon a hamdden eraill, gan gynnwys y sector chwaraeon gwirfoddol, iechyd preifat, chlybiau ffitrwydd, yn ogystal â chyfleusterau cymunedol sylweddol eraill fel neuaddau tref a chanolfannau ieuenctid a chymunedol.

Bydd yr amserlen yn cynnwys gwaith desg; ymgynghori, cyfweliadau hwyluso a gynhelir gyda budd-ddeiliaid allweddol, partneriaethau, darparwyr a nifer o ymweliadau safle.

Bydd yr adolygiad yn mynd i'r afael â'r digonedd, addasrwydd a phriodoldeb o ddarpariaeth hamdden i’r cyhoedd, yn ogystal ag ysgolion perthnasol a chyfleusterau chwaraeon eraill fel hamdden a chanolfannau gweithgareddau ffisegol, ynghyd ag adnabod cyfleoedd, materion a sialensau.

Bydd yn dadansoddi: darpariaeth; lefel o’r defnydd, anghenion presennol a'r dyfodol, materion a'r angen am newid; syniadau; cynigion a dewisiadau a’r potensial i wneud y gorau o gyfleoedd.

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn dymuno i'r adolygiad archwilio a gwerthuso’r opsiynau rheolaethol sydd ar gael. Y prif bwrpas yw parhau i gyflwyno ac i wella’r cynnig hamdden gyhoeddus drwy sicrhau gwerth gorau a sicrhau effeithlonrwydd.

Bydd yr adolygiad yn adnabod a gwerthuso’r holl opsiynau rheolaethol addas yn dilyn archwiliad o holl agweddau Gwasanaeth Hamdden fel rhan annatod o’r adolygiad. Bydd hefyd yn darparu dadansoddiad manwl o oblygiadau ariannol a gweithredol pob opsiwn sy’n berthnasol i Gyngor Gwynedd yn benodol.

Amserlen

Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal fesul ardal:

1. Adolygiad Ardal Meirionnydd – Ionawr/Chwefror
2. Adolygiad Ardal Dwyfor – Chwefror/Mawrth
3. Adolygiad Ardal Arfon – Chwefror/Mawrth
4. Casgliadau Terfynol a Safbwynt y Sir
5. Adroddiad Terfynol – Ebrill/Mai 2013

Os oes rhywun yn cysylltu â chi i gymryd rhan yn y gwaith pwysig hwn, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn rhoi eich amser - dylai eich cyfraniad ddim cymryd mwy nag un awr.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, peidiwch ag oedi i gysylltu â mi.

Ian Jones
Uwch Reolwr Datblygol